Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **11 Gorffennaf 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-07/16: Presennol
Cadeirydd Cyng. R Cadwalader
Is-Gadeirydd Cyng. Sian Williams
Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Elizabeth Regan; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. R T Price; Cyng. W A Evans; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Elizabeth George

2-07/16: Ymddiheuriadau
Cyng. Henry Jones.

3-07/16: Datgan diddordeb
Cyng. Elizabeth Regan (eitem 9 – llyfrgell Criccieth)

4-07/16: Cadarnhau cofnodion mis Mehefin
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cyfrifon yn unol â'r gyfraith.

5-07/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth

- Arwyddion: Adroddodd y Cadeirydd bod Cyngor Gwynedd yn paratoi arwyddion newydd ar gyfer Rhes Salem a Rhes Arfonia.
- Llinellau melyn ger gwesty'r Lion/Rhes Salem: Nid oedd y gwaith yma eto wedi ei wneud. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r adran briffyrdd, Cyngor Gwynedd, i'w hatgoffa.
- Perthi yn y parc: Roedd yr aelod lleol wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn i'r uned waith i dorri'r perthi gan fod yna or-dyfiant sylweddol ar hyd y llwybrau trwy'r parc.
- Castell Criccieth: Adroddodd yr aelod lleol bod Cadw ar fin buddsoddi arian sylweddol yn datblygu'r dderbynfa/y ganolfan ymwelwyr.
- Tâl parcio, maes parcio Abereistedd: Bydd yr adroddiad ar godi tâl parcio yn mynd o flaen Cabinet y Cyngor fory (12 Gorffennaf). Derbyniwyd 14 o wrthwynebiadau i godi tâl yn Abereistedd. Roedd yr adroddiad yn awgrymu mabwysiadu'r cynlluniau heb newid ar gyfer Abereistedd, er y byddai'r adran berthnasol yn monitro'r sefyllfa. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod efallai bod yna gyfiawnhad i ail-edrych ar y band tâl a glustnodwyd ar gyfer y maes parcio yma.
- Cwrs Unllais Cymru – sut i ymateb yn effeithiol i geisiadau cynllunio: 27 Medi 2016, Caernarfon – gofynnwyd i unrhyw un oedd am fynychu i roi gwybod i'r Clerc.

6-07/16: Gohebiaeth

a. Cefn Castell
Derbyniwyd lythyr oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd eu bod mewn cysylltiad â'r perchnogion ynglŷn â'r cerrig a ollyngwyd i'r traeth. Derbyniwyd yr wybodaeth.

b. Cwestiynau glendid stryd (pwyllgor craffu cymunedau Cyngor Gwynedd)

Mewn ymateb i'r cwestiynau, dyma'r atebion a gytunwyd gan yr aelodau:

- Dylai Cyngor Gwynedd fod llawer mwy cadarn nag y mae wrth daclo pobl sy'n gollwng sbwriel neu'n gadael i'w cwn baeddu. Cytuno.
- Dylai'r Cyngor rhoi dirwy yn y fan a'r lle. Cytuno
- Os nad oes gan Gyngor Gwynedd yr arian i fynd ar ôl a chosbi pobl sy'n lluchio sbwriel/caniatau i'w cwn i faeddu, dylent fod yn barod i ddefnyddio cwmni allanol/masnachol i wneud y gwaith. Cytuno

c. Cais am gyfraniad ariannol gan Shelter Cymru

Cytunwyd i beidio rhoi cyfraniad yn yr achos hwn gan mai polisi y Cyngor oedd i gyfrannu tuag at brosiectau lleol a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r dref ei hun.

7-07/16: Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol newydd

Penderfyniad: yn unfrydol i fabwysiadu'r rheoliadau newydd.

8-07/16: Ceisiadau Cynllunio

C16/0607/35/LL
Dymchwel estyniad bresennol a chodi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo
5 Salem Terrace, LL52 0AD
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

C16/0655/35/LL
Cais i godi estyniad unllawr ar gefn ac ar ochr eiddo
Arfor Villa, Caernarfon Road, LL52 0AS
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.

9-07/16: Llyfrgell Criccieth

Trafodwyd yr opsiynau a gyflwynwyd gan swyddogion Cyngor Gwynedd, sef:

- i drosglwyddo yr adeilad presennol yn llwyr i'r gymuned/Cyngor Tref/elusen leol, tra bod Cyngor Gwynedd yn dal i redeg y gwasanaeth llyfrgell
- symud y llyfrgell o'r adeilad presennol i Encil y Coed – Cyngor Gwynedd fydd yn parhau â'r cyfrifoldeb dros adeilad Encil y Coed, a Gwynedd fydd yn rhedeg y gwasanaeth llyfrgell.

Yr oedd swyddogion Cyngor Gwynedd wedi dechrau trafod y posibilrwydd o gyd-leoli'r gwasanaeth yn y ganolfan dydd (Encil y Coed) gyda'r gwasanaethau oedolion, a bydd y trafodaethau hynny yn parhau. Nid oedd yr union gynlluniau eto felly wedi dod i law. Yn ôl yr wybodaeth a roddwyd i'r aelod lleol, amcangyfrir mai £10,000 fydd y gost o ail-leoli. Bydd adroddiad y swyddogion yn mynd o flaen Cabinet Cyngor Gwynedd ym mis Medi a gofynnwyd i'r Cyngor Tref i roi sylwadau erbyn hynny.

Penderfynodd yr aelodau eu bod yn cytuno â'r egwyddor o symud i Encil y Coed, ac mae hon oedd yr opsiwn mwyaf ffafriol, ond nid oedd yn glir os oedd disgwyl i'r Cyngor Tref i gyfrannu mewn unrhyw ffordd pe bai Cyngor Gwynedd yn cytuno i'r cynllun ail-leoli yma. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu i'r swyddogion i gael eglurder ar hyn o beth ac i amlinellu sylwadau'r Cyngor Tref.

10-07/16: Toiledau cyhoeddus

Derbyniwyd lythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn gofyn am gyfraniadau ariannol tuag at gynnal a chadw'r 3 bloc toiled yn y dref: Esplanade, Maes Parcio, ger y Marine.

Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig cadw toiledau cyhoeddus yn y dref, yn enwedig toiledau'r Esplanade a'r maes parcio, ond yr oeddent yn sylweddoli bod yna ansircwydd o ran dyfodol y toiledau ger y Marine. Penderfynwyd i ddatgan bod gan y Cyngor Tref ddiddordeb mewn trafod mynd i bartneriaeth trwy gyfrannu yn ariannol, ond nid i gymryd cyfrifoldeb am y toiledau.

11-07/16: Prosiectau

Peintio'r cysgodfannau. Derbyniwyd un amcanbris yn unig - £1,100 ar gyfer peintio'r cysgodfannau i gyd. Penderfynwyd i dderbyn y pris ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w hysbysu y bydd y gwaith yn cael ei wneud.

Maes parcio tu ôl i'r feddygfa ac Encil y Coed. Roedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad ag Age Cymru i dderbyn y manylion perthnasol parthed y cymynrodd a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r gronfa honno i ariannu'r gwaith o ehangu'r maes parcio. Roedd Age Cymru yn awyddus i drafod y cynlluniau gyda'r Cyngor Tref ymhellach ac yn barod i gysylltu â'r Comisiwn Elusennau ynglŷn â'r rheolau perthnasol. Byddai'n rhaid ystyried nifer o agweddau yn fanwl iawn cyn ymgymryd â'r gwaith, gan gynnwys cynnal trafodaethau gyda'r tirfeddianwr/wyr.

Penderfyniad: I aros tan bod Cyngor Gwynedd yn dod i benderfyniad o ran symud y llyfrgell i Encil y Coed yn gyntaf, a phe bai'r ail-leoli yn cymryd lle, yna i drafod gyda'r Cyngor yr angen a'r posibilrwydd o ehangu'r maes parcio cyn symud ymlaen ag unrhyw gynlluniau.

12-07/16: Swydd y Clerc

1. Yr oedd y Clerc wedi datgan y bydd yn ymddiswyddo o'r rôl, ac yn barod i aros yn y swydd tan yr hydref unwaith y bydd Clerc newydd wedi ei apwyntio. Penderfynwyd i hysbysebu'r swydd yn y *Cambrian News, Caernarfon & Denbigh*, mewnrhwyd Cyngor Gwynedd, cymdeithas clercod lleol. Aelodau'r panel apwyntio fydd: y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Cyng. Elizabeth George a Cyng. Elizabeth Regan.
2. Adroddodd y Clerc bod rhaid i'r Cyngor Tref bellach gofrestru yn awtomatig i gynllun pensiwn a chydymffurfio â'r rheolau newydd. Roedd gohebiaeth wedi cyrraedd o'r awdurdod pensiynau a oedd yn nodi dyddiad gweithredu o 1 Ionawr 2017.

13-07/16: Derbyniadau

Dim

14-07/16: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£ 76.80	siec 101012
• Cyflog y Clerc	£306.54	siec 101011
• Siop Copi (deunydd swyddfa)	£ 39.66	siec 101009
• Atkin Groundworks (Toriad cyntaf a barbio'r fynwent)	£535.99	siec 101010
• Atkin Groundworks (Ail doriad)	£283.99	siec 101013

Rhoddwyd ganiatad i'r clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 12 Medi 2016**

** Bydd y rhaglen yma yn cau **2 Medi 2016** **